# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Gwener, 22 Gorffennaf 2022</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, C.James, S.Grimshaw, K.Morris, S.Rahaman a/ac L.Williams |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd y derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorydd Shelia Penry.

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 6: Grant Eiddo Masnachol: Canolfan Busnes Stryd y Dŵr, Port Talbot
- Eitem 7: Grant Eiddo Masnachol: Unedau 1 a 2 Adeiladau Masnachol, Heol Talbot, Port Talbot
- Eitem 8: Grant Eiddo Masnachol: 20 Heol y Frenhines, Castell-nedd
- Eitem 10: Canllaw Dylunio Technegol Priffyrdd CBS Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer Datblygiadau Preswyl a Masnachol

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Stephanie Lynch gysylltiad ag Eitem 6 a restrir ar agenda Bwrdd y Cabinet. Eglurodd ei bod yn gweithio yng Nghanolfan Busnes Stryd y Dŵr ym Mhort Talbot, ond nid oedd yn ymwneud â'r grant ac nid oedd yn effeithio arni.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Eitem 6: Grant Eiddo Masnachol: Canolfan Busnes Stryd y Dŵr, Port Talbot

Eitem 7: Grant Eiddo Masnachol: Unedau 1 a 2 Adeilad Masnachol, Heol Talbot, Port Talbot

Eitem 8: Grant Eiddo Masnachol: 20 Heol y Frenhines, Castell-nedd

Esboniodd y Cadeirydd fod yr aelodau wedi codi ambell gwestiwn o ran y grantiau eiddo masnachol, a chynigiodd ateb y cwestiynau hyn ar yr un pryd.

Holodd yr aelodau a fyddai'r grant ar gael ar gyfer gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud a'i gwblhau. Cadarnhaodd swyddogion fod y grant fel arfer yn cael ei dalu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, gan fod angen i syrfëwr meintiau ei archwilio a’i gymeradwyo. Cadarnhawyd, yn benodol o ran Eitem 7, Unedau 1 a 2 Commercial Buildings, Talbot Road, nad oedd y deiliaid wedi derbyn llythyr i gadarnhau'r grant, gan nad oedd wedi'i gymeradwyo gan aelodau eto.

Cytunodd y swyddogion i gadarnhau gyda'r Cynghorydd R. Davies a allai elusennau cofrestredig wneud cais am 100% o arian grant ar gyfer eiddo masnachol ai peidio.

Cadarnhawyd i'r Pwyllgor nad oedd yn rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio contractwyr a gymeradwywyd gan y cyngor ond roedd yn rhaid iddynt wahodd cynigion am dendr gan dri chontractwr a byddai'r syrfëwr meintiau annibynnol wedyn yn gwirio'r costau.

Eglurwyd mai menter gan Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen Trawsnewid Trefi oedd y Grant Creu Lleoedd a nodwyd yn yr adroddiad, a byddai'r tîm adfywio'n ymdrin â hyn.

Holodd aelodau'r Pwyllgor ynghylch y cynnig grant arfaethedig o £47,966.08 ar gyfer 20 Heol y Frenhines, Castell-nedd, gan ei fod yn ymddangos yn gostus ar gyfer to newydd. Cadarnhawyd bod cost y grant i'w weld yn uchel iawn gan fod angen ailosod holl adeiladwaith y to, yn hytrach na gorchuddion y to'n unig; roedd y grant yn cynnwys y gwaith i dynnu'r to a'r adeiladwaith presennol ac ailosod y cyfan.

Gofynnodd y Pwyllgor i bob aelod o'r cyngor gael rhestr o'r holl grantiau a oedd yn cael eu cynnig gan y cyngor.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion gan Fwrdd y Cabinet.

Eitem 10: Canllaw Dylunio Technegol Priffyrdd CBS Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer Datblygiadau Preswyl a Masnachol

Cyflwynodd y swyddogion yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Canllaw Dylunio Technegol Priffyrdd newydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Eglurwyd bod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi sefydlu Tasglu i gynnal adolygiad ar briffyrdd sydd heb eu mabwysiadu. Roedd rhan o'r adolygiad hwnnw'n golygu safoni dyluniad a manylebau priffyrdd mewn dogfen Safonau Cyffredin Cymru Gyfan at ddefnydd pob awdurdod lleol. Roedd y Tasglu'n cynnwys Awdurdodau Lleol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Nod y canllaw dylunio oedd cyflwyno ymagwedd fwy cyson er mwyn galluogi Cytundebau Priffyrdd, megis cytundeb mabwysiadu priffyrdd adran 38 a hefyd gytundebau adran 278 ar gyfer gwaith oddi ar y safle sy'n ymwneud â datblygiadau newydd. Gallai'r rhain wedyn gael eu cwblhau'n llwyddiannus ar gyfer mabwysiadu ffyrdd sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd.

Cafwyd sêl bendith Llywodraeth Cymru ar gyfer y canllaw dylunio a dechreuwyd ei rhoi ar waith ledled Cymru. Amlygwyd hefyd i'r Pwyllgor fod y canllaw’n ddogfen fyw, gan fod newidiadau deddfwriaethol yn digwydd ar hyn o bryd a chytunwyd ar ddiweddariadau i'r canllawiau teithio llesol. Roedd y ddogfen yn cael ei llunio a'r bwriad oedd i’w hadolygu eto yn 2023, ac mae'n bosib y bydd diweddariadau pellach i'w hystyried bryd hynny.

Nodwyd mai pwrpas y ddogfen oedd ei darllen gyda'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol eraill o ran priffyrdd. Cadarnhawyd ymhellach fod CLlLC yn awyddus i ychwanegu'r canllawiau Teithio Llesol at y canllaw dylunio, ac roedd y gwaith hwn yn parhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad. Nododd fod gan yr aelodau bryderon ynghylch y ffaith na fydd y ddogfen efallai’n gwbl gyfredol bob amser, gyda'r holl ddarpariaethau

cyfreithiol a pholisi perthnasol, a'u bod am gynnig gwelliant i'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor Craffu wedi cytuno i argymell y gwelliant isod i Fwrdd y Cabinet i'w ystyried:

*Ar ôl rhoi sylw dyledus i sgrinio'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellwyd y bydd yr Aelodau'n cymeradwyo'r Canllaw Dylunio Priffyrdd Newydd i'w roi ar waith yn amodol ar roi ymwadiad priodol ar wefan y cyngor sy'n esbonio nad yw rhai darpariaethau cyfreithiol a pholisi o bosib yn gyfredol a thynnu sylw at gydymffurfiaeth â Llwybr Newydd, PPW11 a chyfeiriad penodol at Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol 2021 (sy'n cadarnhau ymrwymiad y cyngor hwn i Deithio Llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy). Yn ogystal, rhaid i ddiwygiadau i'r ddogfen yn y dyfodol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan CSS neu yn dilyn fersiynau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru.*

Yn dilyn Craffu, ac yn ogystal â'r gwelliant uchod, cefnogwyd yr argymhellion i Fwrdd y Cabinet.

## 4. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 5. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Nid oedd angen hyn.

## 6. CRAFFU AR EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

Nid oedd angen hyn.

**CADEIRYDD**